

Yr Astudiaeth

1. Cefndir a chyd-destun: Rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn amlieillu manylion y gwaith a gynhaliwyd gan yr ASB hyd yn hyn i archwilio sut y gallai'r cynllun Prif Awdurdod, ac yn arbennig, strategaethau arolygu cenedlaethol, chwarae rôl yn rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol, ac mewn system rheoleiddio bwyd newydd.
- 1.2. Mae rhaglen Rheoleiddio ein Dyfodol, sydd wedi bodoli ers blwyddyn bellach, yn rhaglen a fydd yn trawsnewid y system rheoleiddio bwyd yn llwyr drwy ei diwygio a'i moderneiddio. Bydd y rhaglen yn newid y ffordd caiff busnesau bwyd eu rheoleiddio a'u harolygu yn llwyr ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Y nod i'r ASB yw cael system newydd ar waith erbyn 2020.
- 1.3. Mae'r ASB yn edrych ar y system gyfan, ac ar yr wybodaeth sydd ar gael o ystod ehangach o ffynonellau, a sut y gellid ei defnyddio yn y dyfodol er mwyn cael sicrwydd bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, a bod iechyd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu.
- 1.4. Mae'r ASB wedi ymrwymo i weithio mewn ffordd agored wrth greu polisi. Golyga hyn fod yr ASB wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw, felly caiff pob penderfyniad a thrafodaeth ynghylch polisi ei wneud a'i chynnal yn gyhoeddus.
- 1.5. Drwy weithio â rhanddeiliaid yn ystod yr astudiaeth hon, nod yr ASB oedd dysgu am syniadau newydd, arfer gorau a gwersi a ddysgwyd gan eraill, a fyddai'n galluogi datblygu'r model rheoleiddio bwyd gorau posibl.

2. Strategaethau arolygu cenedlaethol

- 2.1. Mae gan brif awdurdod ddigon o wybodaeth am weithrediadau busnes i ddeall sut y mae'n cydymffurfio, a gwneud penderfyniadau gwybodus am y gwiriadau cydymffurfio sydd eu hangen ar y busnes er mwyn ei reoleiddio'n gywir a sicrhau diogelwch y cyhoedd.
- 2.2. Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, gallai'r prif awdurdod ystyried bod ganddo ddigon o dystiolaeth i ddangos bod y busnes yn cael ei reoli'n dda, ac felly gallai ystyried llai o ymyriadau rheoleiddio i'r busnes, neu ymyriadau wedi'u teilwra'n arbennig iddynt.
- 2.3. Gallai prif awdurdod roi strategaeth arolygu genedlaethol ar waith mewn perthynas â gweithgareddau busnes partner (drwy gynllun arolygu), a fyddai'n rheoli nifer yr ymweliadau rhagweithiol ar draws pob safle a weithredir gan y busnes. Byddai rhaglen fel hon o fudd i awdurdodau lleol gan y byddai'n eu galluogi i ddefnyddio adnoddau i fynd i'r afael â sefydliadau eraill a allai peri risg uwch.

3. 'Astudiaeth Dichonolrwydd' Strategaeth Arolygu Genedlaethol

- 3.1. Ym mis Tachwedd 2016, ysgrifennodd yr ASB at bob awdurdod lleol yn holi partneriaethau prif awdurdod i enwebu eu hunain i fynychu gweithdy ar y strategaeth arolygu genedlaethol. Mae modd gweld y llythyr drwy'r dudalen [Llythyrau at Awdurdodau Lleol yr ASB](#)
- 3.2. Nod y gweithdy oedd i'r ASB, yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (Cyflawni Rheoleiddio), prif awdurdodau a'u busnesau partner gydweithio mewn dull agored o greu polisi i archwilio sut y gall Prif Awdurdodau gefnogi rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol. Yn arbennig, nod y gweithdy oedd archwilio gweithgareddau i ddatblygu dulliau effeithiol o gynnal strategaethau arolygu cenedlaethol ar gyfer prif awdurdodau.
- 3.3. Roedd yn rhaid i bartneriaethau arddangos eu bod yn weithgar, yn fodlon ac yn gallu cydweithio â'r ASB a Chyflawni Rheoleiddio er mwyn ystyried strategaethau arolygu cenedlaethol yng nghydestun rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol.
- 3.4. Roedd disgwyl y byddai modd profi gweithredu'r strategaeth arolygu genedlaethol ddiwedd 2017.
- 3.5. Dewiswyd y partneriaethau canlynol i ymuno â'r ASB a Chyflawni Rheoleiddio yn y gweithdy:
 - Waitrose a'u prif awdurdod hylendid bwyd Cyngor Bracknell Forest
 - Morrisons a'u prif awdurdod hylendid bwyd Cyngor Wakefield
 - Caffé Nero a'u prif awdurdod hylendid bwyd Cyngor Bwrdeistref Eastleigh
 - Busy Bees Nurseries a'u prif awdurdod hylendid bwyd Cyngor Dosbarth Lichfield
 - Sainsbury's a'u prif awdurdodau Cyngor Sir Swydd Rydychen (safonau bwyd) a Chyngor Dosbarth Cherwell (hylendid bwyd)
 - Ffederasiwn Ffriwyr Pysgod Cenedlaethol a'u prif awdurdod hylendid bwyd (a gydlynwyd) Cyngor Dosbarth Metropolitaidd Dinas Bradford
 - Tesco a'u prif awdurdodau Cyngor Sir Swydd Hertford (safonau bwyd) a Chyngor Sir Luton (hylendid bwyd)
 - Boots a'u prif awdurdod hylendid bwyd Cyngor Bwrdeistref Rushcliffe
- 3.6. Yn y digwyddiad, gweithiodd y rheiny a gymerodd ran mewn grwpiau ar nifer o drafodaethau â thema arbennig, gan gynnwys *'Trafodwch sut y byddai strategaethau arolygu cenedlaethol yn edrych yn ymarferol' a 'Beth ddylai fod ar waith er mwyn i brif awdurdod ddatblygu a gweithredu strategaeth arolygu genedlaethol?'*
- 3.7. Arweiniodd y trafodaethau at ddrafftio 'meini prawf' a allai fod yn sail i 'safon' yr ASB ar gyfer ystyried strategaethau arolygu cenedlaethol a gyflawnir drwy gynlluniau arolygu prif awdurdodau, ac awgrymiadau ar sut ddylai'r ASB barhau i oruchwylio prif awdurdodau pan fo strategaethau cenedlaethol ar waith.

4. Strategaeth Arolygu Genedlaethol: y meini prawf drafft

- 4.1. Cydweithiodd pawb a oedd yn bresennol i greu 'meini prawf' a ddylai fod ar waith, yn eu barn nhw, cyn gweithredu strategaeth arolygu genedlaethol.
- 4.2. Wrth gynhyrchu strategaeth arolygu genedlaethol, byddai angen i brif awdurdod ddarparu tystiolaeth mewn dogfen sy'n rhoi'r sail resymegol am ei gynllun arolygu am sut y byddent yn bodloni'r meini prawf hyn. Mae'n ofynnol i unrhyw brif awdurdod sy'n creu cynllun arolygu hefyd creu a chyflwyno dogfen o'r fath hon, er mwyn i Gyflawni Rheoleiddio gytuno arni, gyda'r ASB fel ymgynghoryai statudol.
- 4.3. Dyma'r meini prawf a ddrafftwyd:
 - Mae'r strategaeth arolygu genedlaethol yn addas ar gyfer y math o fusnes
 - Mae'r prif awdurdod yn arddangos ei fod yn gymwys
 - Mae'r busnes yn gweithredu mesurau diogelwch bwyd gofynnol eisoes
 - Dylai'r prif awdurdod fod wedi adolygu a chyhoeddi Cyngor Prif Awdurdod ar y system rheoli diogelwch bwyd
 - Dylai'r prif awdurdod fod wedi dilysu gweithrediad y system rheoli diogelwch bwyd (ac elfennau eraill yn ôl yr angen)
 - Dylai'r prif awdurdod fod wedi adolygu a gwirio hanes cydymffurfiaeth
 - Mae proses gadarn ar gyfer cyhoeddi Cyngor Prif Awdurdod a goruchwylio cydymffurfiaeth y busnes ar waith (e.e. mynediad at ddata, cwynion, archwiliadau (parti cyntaf, ail neu drydydd parti), samplu, adborth gan reoleiddwyr)
 - Dylai 'mapiau' archwilio'r busnes fodloni gofynion deddfwriaethol
 - Dylai fod tystiolaeth i nodi yr eir i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio
 - Dylai fod tystiolaeth o adolygu gan gymheiriaid neu feincnodi

5. Tasgau astudiaeth dichonolrwydd

- 5.1. Lanswyd y gwaith ar y strategaeth arolygu genedlaethol yn y gweithdy ym mis Ionawr. Yn ystod y misoedd wedyn, gofynnwyd i bartneriaethau weithio tuag at:
 - Ddarparu adborth i'r ASB ar y meini prawf drafft
 - Cwblhau dadansoddiad busnes/partneriaeth i brofi'r meini prawf drafft, er mwyn pennu a ydynt yn rhesymol, yn gyraeddadwy ac yn ddigon cadarn ac ati.
 - Pennu'r math o dystiolaeth y byddai ei hangen er mwyn rhoi sicrwydd i'r ASB bod y busnes wedi bodloni'r meini prawf
 - Cynnig sut y gallai strategaeth arolygu genedlaethol edrych ar gyfer eu partneriaeth nhw, neu gynnig cynllun peilot ar raddfa fach a allai brofi sut y gall strategaeth arolygu genedlaethol weithio yn hwyrach yn y flwyddyn.

6. Y camau nesaf

6.1. Mae camau nesaf y gwaith ar y strategaeth arolygu genedlaethol yn cynnwys:

- Gweithio gyda hyd at 7 prif awdurdod er mwyn datblygu a phrofi cysyniad strategaethau arolygu cenedlaethol yn ystod 2017/18.
- Gwerthuso'r ymarferion hyn a phennu sut y gall strategaethau arolygu cenedlaethol chwarae rôl yn y model gweithredu targed newydd.
- Ystyried sut fydd y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn gweithredu ar gyfer safleoedd sydd yng nghwmpas y strategaeth arolygu genedlaethol.
- Ceisio safbwyntiau ar y meini prawf drafft ar gyfer strategaethau arolygu cenedlaethol diogelwch bwyd (gweler adran 4.3 uchod).
- Datblygu canllawiau (gyda rhanddeiliaid) ar gyfer prif awdurdodau sy'n dymuno datblygu strategaethau arolygu cenedlaethol ar gyfer eu partneriaethau.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn datblygu mecanweithiau'r ASB ar gyfer asesu cynigion strategaeth arolygu genedlaethol.
- Sefydlu sut fydd yr ASB yn parhau i oruchwylio prif awdurdodau sy'n datblygu a gweithredu strategaethau arolygu cenedlaethol.
- Cyfathrebu â'r holl randdeiliaid perthnasol am y gwaith hwn, a bod yr ASB yn ei arwain.

6.2. Bydd yr ASB yn parhau i weithio'n agos â Chyflawni Rheoleiddio, prif awdurdodau, awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid perthnasol eraill wrth i'r prosiect hwn ddatblygu. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau neu sylwadau am y gwaith hwn, gallwch gysylltu â thîm Sicrwydd Diwydiant yr ASB drwy e-bostio: primaryauthoritysupport@foodstandards.gsi.gov.uk.

Diwedd.